

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, wedi hysbysiad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg. Rhan anhepgor o'r Cynllun Iaith yw'r Cynllun Gweithredu. Dylai hwn ddangos y camau angenrheidiol a'r amserlen gweithredu ar gyfer pob cymal o'r Cynllun Iaith. Wedi i Fwrdd yr Iaith gymeradwyo'r Cynllun Iaith a'r Cynllun Gweithredu bydd y Cyngor yn eu cyhoeddi a'u cyflwyno ar gyfer 13 wythnos o ymgynghori. Pan gaiff y cynllun ei roi ar waith yn 2011 bydd gofyn i'r Cyngor ei fonitro i sicrhau fod pawb yn cydymffurfio â'r Cynllun, ac yna llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol yn unol â hynny.

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro		
Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
1. DATGANIAD AGORIADOL		
1.1 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg, cyn belled â bod modd, yn gyfartal wrth gynnal gwaith cyhoeddus yng Nghymru. Os nad yw'n bosib trin yr ieithoedd yn gyfartal, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r mater yn unol â chyllid y Cyngor. Mae'r cynllun hwn yn dangos sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor yn ei wasanaethau cyhoeddus.		
1.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod pobl yn mynegi eu hunain yn well yn eu dewis iaith ac mai mater o arfer da yn hytrach na chyfaddawd yw galluogi pobl i ddefnyddio eu dewis iaith. Gellid rhoi rhai pobl dan anfantais wirioneddol drwy wrthod eu hawl i ddefnyddio eu dewis iaith. O ganlyniad bydd y Cyngor, cyn belled â'i bod yn ymarferol bosib, yn rhoi dewis iaith i'r cyhoedd pan fyddant yn cyfathrebu â'r Cyngor		

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
<p>1.3 Nod y Cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • galluogi pawb sy'n derbyn neu'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd i wneud hynny yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn unol â'u dewis. Os yw asiantaeth neu sefydliad arall yn gyfrifol am wasanaeth bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau fod y gwasanaeth ar gael i bobl drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. • mewn egwyddor a lle bo'n ymarferol, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. • mewn egwyddor a lle bo'n ymarferol, annog eraill i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. 		
2. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU		
2.1. Polisiâu a Mentrau newydd		
<p>2.1.1. Wrth lunio polisiâu neu fentrau newydd bydd y Cyngor yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • asesu effaith ieithyddol unrhyw bolisi neu fenter newydd a sicrhau cysondeb gyda'r Cynllun Iaith. • hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo modd gan fanteisio ar bob cyfle i symud yn agosach at weithredu'r egwyddor o fod yn gwbl gyfartal. • ymgynghori gyda Bwrdd yr Iaith ynglŷn ag unrhyw gynigion fydd yn effeithio'r Cynllun, neu gynllun unrhyw gorff cyhoeddus arall. Ni ellir addasu'r Cynllun heb i Fwrdd yr Iaith gytuno â'r newid. • sicrhau fod y rhai sy'n gyfrifol am lunio polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun a chyfrifoldebau'r Cyngor dan Ddeddf Iaith 1993. • sicrhau fod polisiâu a mentrau newydd yn cydymffurfio gyda mesurau'r Cynllun. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Y Cyngor i gynnwys paragraff "Cynllun Iaith Gymraeg" safonol ymhob adroddiad pwyllgor fel y gellir gweld sut fydd y Cynllun Iaith yn effeithio ar y mater dan sylw. 2. Os yw'r materion yn gymhleth, bydd yr Is-bwyllgor Iaith Gymraeg yn eu trafod mewn mwy o fanylder gan roi cyngor neu adborth i'r pwyllgor. 3. Clerc y Dref i roi sylw i'r goblygiadau wrth i faterion fynd rhagddynt gan ymdrin â nhw yn ôl gofynion y Cynllun Iaith cymeradwy. Dylid adrodd yn ôl i'r Cyngor, a/neu Fwrdd yr Iaith os oes angen cyngor pellach. 4. Clerc y Dref i sicrhau fod y staff yn gweithredu ar unrhyw benderfyniad yn unol â'r canllawiau a'r trefniadau ysgrifenedig. 5. Clerc y Dref i sicrhau y caiff y Cynllun ei 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Caiff y templed adroddiad safonol ei addasu i gynnwys paragraff "Cynllun Iaith Gymraeg" fel y gellir gweld sut fydd y Cynllun Iaith yn effeithio ar y mater dan sylw. 2. Nodi yn y cofnodion nifer y materion y mae'r Cynllun Iaith yn effeithio arnynt. 3. Nodi unrhyw achos sydd wedi ei gyfeirio at Fwrdd yr Iaith. 4. Cadarnhau bod pob Aelod o'r Cyngor wedi derbyn copi o'r Cynllun Iaith pan y'u penodwyd gyntaf. Bydd y Cynllun Iaith yn rhan o'r pecyn gwybodaeth a roddir i Aelodau newydd ac a gaiff ei roi i Aelodau yn dilyn yr etholiadau pob 4 blynedd. I'r perwyl hwn fe gedwir rhestr o'r holl ddogfennau sydd i'w dosbarthu. 5. Sicrhau y caiff pob gweithred y penderfyna'r Cyngor arno ei gofnodi. Mae cronfa ddata o gofnodion y Cyngor yn bodoli eisoes er mwyn

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
	gynnwys yn y pecyn gwybodaeth a roddir i aelodau newydd, ac a gaiff ei roi i bob aelod yn dilyn yr etholiadau bob 4 blynedd. 6. Goblygiadau o ran arian ac adnoddau– yn dibynnu ar faterion newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg. Caiff y rhain eu dynodi yn yr un adroddiad.	cofnodi'r holl weithredu y mae angen ei wneud. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r gronfa hon i fonitro'r cynnydd.
2.2. Safon		
2.2.1. Bydd gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg o'r un safon ac yr un mor brydlon â'i gilydd.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Yr Is-bwyllgor i bennu rhaglen waith ar gyfer cyfnod y Cynllun Iaith er mwyn ystyried effaith y Cynllun ar ddigwyddiadau cymunedol. Dylid rhoi'r ystyriaeth fwyaf i'r digwyddiadau mwyaf. 2. Annog y Cyngor i ddylanwad ar y sefydliadau sy'n derbyn cefnogaeth ganddo ar gyfer eu digwyddiadau e.e. y Cyngor i anfon llythyrau cefnogaeth yn ddwyieithog. 3. Goblygiadau trefnu – i'w hamlinellu yn ffeil cofnodion y digwyddiadau unigol. 4. Goblygiadau ariannol – dim gwybodaeth ar hyn o bryd ond mae'n debyg y bydd costau cyfieithu a chostau cynhyrchu. 5. Goblygiadau o ran adnoddau – fe all materion cyfieithu effeithio ar waith arall sydd angen ei wneud. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Yr Is-bwyllgor i adolygu'r digwyddiadau cymunedol yn unigol drwy gydol cyfnod y Cynllun Iaith i ystyried goblygiadau'r Cynllun. Bydd gofyn i'r Is-bwyllgor lunio cynllun gwaith ar gyfer 2011/13. Caiff hyn ei roi ar yr agenda a gwneir cofnod o bob gweithred. Bydd y swyddogion perthnasol yn cymryd rhan yn y trafodaethau. 2. Nodi faint o negeseuon cefnogaeth dwyieithog ynglŷn â thafleuni digwyddiadau ac ati sydd wedi eu hanfon at sefydliadau sy'n derbyn cymorth ariannol gan y Cyngor.
3. DELIO GYDA SIARADWYR CYMRAEG		
3.1. Cyfathrebu Ysgrifenedig		
3.1.1. Bydd y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.	Gweler 5.5.1	Gweler 5.5.1
3.1.2. Ni fydd oedi gyda gohebiaeth Cymraeg.	1. Clerc y Dref i drefnu cyfieithu cyn gynted â phosib	1. Cofnodi faint o ohebiaeth a dderbyniwyd, y dyddiad, dyddiad ei hanfon i'w chyfieithu a

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
	<p>2. Rhaid anfon gohebiaeth Cymraeg i'w gyfieithu ar ddiwrnod derbyn yr ohebiaeth.</p> <p>3. Goblygiadau ariannol – costau cyfieithu</p> <p>4. Goblygiadau o ran adnoddau –staff yn trefnu cyfieithu gohebiaeth i'r Gymraeg “ar frys”, efallai ar draul gwaith arall sydd angen ei wneud.</p>	<p>phryd gafwyd y gwaith yn ôl. Mae'n rhaid anfon pob gohebiaeth Cymraeg i'w gyfieithu ar ddiwrnod derbyn yr ohebiaeth. Byddwn yn addasu'r gronfa ddata post mewnol i gofnodi'r manylion hyn. Ystyrir hwn wedyn fel gorchymyn gwaith ar ran y Cyngor i gyfieithu. Er mwyn hwylustod ac i leihau amser fe gyfathrebir â'r sawl sy'n cyfieithu drwy e-bost. Caiff cofnod o'r sgwrs ei chadw drwy greu ffolder penodol ar gyfer y math yna o ohebiaeth.</p>
<p>3.1.3. Caiff pob gohebiaeth Cymraeg ei ateb yn Gymraeg.</p>	<p>1. Clerc y Dref i drefnu cyfieithu ymateb Saesneg i ohebiaeth Cymraeg cyn gynted â phosib</p> <p>2. Mae'n rhaid anfon ymatebion Saesneg i ohebiaeth Cymraeg at y cyfieithydd ar ddiwrnod cwblhau'r ymateb.</p> <p>3. Goblygiadau ariannol – costau cyfieithu</p> <p>4. Goblygiadau o ran adnoddau – cyfieithu i'r Gymraeg yn dod yn waith i'w wneud “ar frys” gan amharu, efallai, ar waith arall sydd angen ei wneud.</p> <p>D.S.: mae'r is-bwyllgor wedi egluro bod yn rhaid i Aelod sy'n derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg ei anfon at Glerc y Dref i wneud y trefniadau addas os nad yw'n gallu ymateb i'r ohebiaeth ei hun yn y Gymraeg.</p>	<p>1. Cofnodi faint o ymatebion Cymraeg yr anfonwyd. Bydd yn rhaid i hyn gyfateb i nifer yr ohebiaeth yn 3.1.2 uchod. Pan ddaw gohebiaeth yn ôl wedi ei gyfieithu dan gymal 3.1.2 bydd natur yr ymholiad yn ddealladwy. Hyn fydd yn pennu pa mor sydyn y gellir ymateb. Hynny yw, bydd y Cyngor yn ymdrin â'r ymholiad fel unrhyw ymholiad Saesneg cyffelyb. Fel yn 3.1.2 uchod bydd y Cyngor yn cofnodi manylion pob gohebiaeth a dderbynnir, gan gynnwys e-byst, mewn cronfa ddata. Byddwn yn addasu'r gronfa ddata post mewnol i gofnodi'r manylion hyn. Ystyrir hwn wedyn fel gorchymyn gwaith ar ran y Cyngor i gyfieithu. Er mwyn hwylustod ac i leihau amser fe gyfathrebir â'r sawl sy'n cyfieithu drwy e-bost. Caiff cofnod o'r sgwrs ei chadw drwy greu ffolder penodol ar gyfer y math yma o ohebiaeth.</p>

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
<p>3.1.4. Cymraeg fydd iaith pob gohebiaeth yn dilyn galwad ffôn neu sgwrs wyneb yn wyneb Cymraeg. Yn dilyn cyfarfod ble gwelwyd mai'r Gymraeg oedd y dewis iaith, er na chafwyd trafodaeth yn y Gymraeg, byddir yn gohebu yn Gymraeg.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i nodi pwy y dylid gohebu â nhw yn Gymraeg. Creu cronfa ddata dewis iaith. 2. Goblygiadau trefnu – y staff i wybod am y gofynion wrth iddynt godi. 3. Goblygiadau ariannol – costau cyfieithu, costau datblygu cronfa ddata. 4. Goblygiadau o ran adnoddau - fe all monitro a rheoli'r gronfa ddata effeithio ar waith arall sydd angen ei wneud. <p>D.S.: mae'r is-bwyllgor wedi egluro y dylai Aelod yn y sefyllfa yma anfon yr ohebiaeth at Glerc y Dref er mwyn gwneud y trefniadau sy'n addas ar gyfer y Cynllun pan nad ydynt yn gallu ymdrin â'r mater eu hunain yn y Gymraeg.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Cofnodi pob achos ac os oes dewis iaith gan berson bydd yn rhaid cyfathrebu â nhw yn yr iaith honno. Bydd y Cyngor yn addasu'r gronfa ddata e-byst mewnol i nodi dewis iaith y person ac unrhyw ohebiaeth ar ôl hynny.
<p>3.1.5. Wrth ohebu gydag aelod o'r cyhoedd, bydd pob darn o ohebiaeth yn newis iaith yr unigolyn hwnnw, os gwyddys beth yw ei ddewis iaith.</p>	<p>Gweler 3.1.4</p>	<p>Gweler 3.1.4</p>
<p>3.1.6. Bydd pob cylchlythyr a llythyr cyhoeddus yn ddwyieithog.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i sicrhau y caiff hyn ei wneud. 2. Goblygiadau trefnu –staff i wybod am y trefniadau a phwysleisio bod angen amserlen addas i ganiatáu digon o amser ar gyfer y camau ychwanegol. 3. Goblygiadau ariannol – costau cyfieithu a chyhoeddi, efallai y bydd angen dylunio mwy arbenigol. 4. Goblygiadau o ran adnoddau – bydd angen neilltuo mwy o amser ar gyfer y rhan 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Os oes llythyr i'w anfon at y cyhoedd mae'n rhaid ei gyfieithu a'i anfon yn ddwyieithog. Dylai'r staff ofyn am gyngor Clerc y Dref os ydynt yn ansicr. Bydd y Cyngor yn cadw cofnod o natur a nifer y llythyrau.

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
	fwyaf o'r prosiectau er mwyn ystyried y Gymraeg.	
3.1.7 Bydd y Cyngor yn trefnu cyfieithu Gohebiaeth yn ôl yr angen er mwyn ymateb i ohebiaeth yn brydlon ac yn yr iaith wreiddiol.	Gweler 3.1.3	Gweler 3.1.3
3.1.8 Bydd Clerc y Cyngor yn gyfrifol am gyfieithu unrhyw ohebiaeth.	Gweler 3.1.3	Gweler 3.1.3
3.1.9 Bydd pennawd llythyr swyddogol y Cyngor yn cynnwys datganiad yn y ddwy iaith yn amlygu'r ffaith bod y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.	Gweler 3.1.1 a 5.5.1	Gweler 3.1.1 a 5.5.1
3.2. Galwadau Ffôn		
3.2.1 Bydd y Cyngor yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Er nad yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn gallu ymdrin â galwadau ffôn yn y Gymraeg bydd y Cyngor yn ystyried hyn wrth benodi staff yn y dyfodol.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref pan fydd swydd wag 2. Clerc y Dref i benderfynu a oes angen sgiliau yn y Gymraeg gogyfer y swydd gan ei nodi yn y swydd ddisgrifiad 3. Goblygiadau ariannol - dim 4. Goblygiadau o ran adnoddau – dim 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Ystyried hyn wrth benodi staff newydd. Cofnodi' unrhyw weithred a wnaed ar y pryd. Nes bod swydd wag nid oes dim i'w fonitro.
3.2.2. Nid yw'r Cyngor yn gallu ymdrin â galwadau ffôn yn Gymraeg ar hyn o bryd. Serch hynny, i gyd-fynd â nod y polisi, bydd cyfarchiad ffôn dwyieithog. Os yw'r galwr yn parhau â'r sgwrs yn y Gymraeg bydd y Swyddog yn dweud wrth y galwr nad yw'n medru'r Gymraeg. Dylid egluro nad yw'r Cyngor yn cyflogi rhywun sy'n medru'r Gymraeg. Gall y galwr ddewis i barhau â'r sgwrs yn Saesneg neu ysgrifennu at y Cyngor yn Gymraeg gan dderbyn ateb Cymraeg	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i drefnu ymarfer ymgynghori i'r staff fel rhan o gyfarfod gyda'r Is-bwyllgor. 2. Clerc y Dref i ysgrifennu'r trefniadau gan nodi unrhyw weithred angenrheidiol. 3. Goblygiadau ariannol – ychydig iawn. 4. Goblygiadau o ran adnoddau – hyfforddiant sylfaenol (nid llawn) yn y Gymraeg / canllawiau i'r staff, amser hyfforddi staff. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae Clerc y Dref wedi derbyn cyngor ar y math o gyfarchiad a bydd staff yn derbyn gwybodaeth am hyn. 2. Clerc y Dref i ymgynghori gyda staff gan nodi'r amser a'r dyddiad. 3. Cadw cofnod o alwadau ffôn Cymraeg a'r canlyniadau. Bydd dogfen a ffeil newydd ar gyfer hyn.

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
<p>3.3 Cyfarfodydd y Cyngor <i>[cyfarfodydd rheolaidd sy'n agored i'r cyhoedd ond ble nad yw'r cyhoedd yn rhan o'r cyfarfod.]</i></p>		
<p>3.3.1. Bydd hysbysiad ac agenda cyfarfodydd y Cyngor ar gael yn ddwyieithog pan wneir cais. 3.3.2. Bydd cofnodion dwyieithog ar gael i'r cyhoedd pan wneir cais.</p>	<p>1. Mae'r weithred hon yn cyfeirio at Bwyllgorau Cyngor, Cyllid ac Amcanion Cyffredinol a Chynllunio yn unig. Er bod y rhan hwn o'r Cynllun yn dweud y dylid darparu dogfennau dwyieithog "pan wneir cais" mae'r Cyngor eisoes yn cyhoeddi agendau a chofnodion yn gyhoeddus gan eu rhoi ar y wefan dan Gynllun Rhyddid Gwybodaeth. Er mwyn ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal bydd yn rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r agendau a'r cofnodion yn ddwyieithog a hynny ar yr un pryd. I wneud hyn, bydd yn rhaid cwblhau agendau cyfarfodydd yn gynt er mwyn eu hanfon i'w cyfieithu. Dim ond pan fydd y fersiynau Cymraeg a'r Saesneg ar gael y byddir yn cyhoeddi'r agendau. Bydd yn rhaid glynu'n gaethach i'r dyddiad cau ar gyfer cynnwys eitemau ar yr agenda i sicrhau fod digon o amser i gyfieithu. Cytunwyd mai am 11:00yb wythnos cyn y cyfarfod (sydd fel rheol am 11:00yb ar ddydd Mercher) fydd y dyddiad cau ar gyfer rhoi eitemau ar yr agenda. 2. Clerc y Dref i newid y trefniadau i gyd-fynd â'r gofynion hyn. 3. Goblygiadau ariannol – costau cyfieithu fydd y rhan fwyaf sylweddol o'r gyllideb ar gyfer y Cynllun Iaith. 4. Goblygiadau o ran adnoddau - staff yn trefnu cyfieithu dogfennau "brys" yn yr</p>	<p>1. Clerc y Dref i gyhoeddi dull gweithredu yn unol â'r amserlen newydd a'r angen i gyfieithu. Bydd cymeradwyo'r Cynllun yn fodd o hysbysu'r Aelodau am hyn. Bydd yn rhaid cofnodi nifer a dyddiad y dogfennau sydd wedi eu cyfieithu yn ogystal â'r gweithdroad. 2. Cofnodi achosion ble nad oedd modd cyfieithu neu achosion pan oedd y cyfieithiad yn hwyr a phan na anfonwyd y dogfennau dwyieithog ar yr un pryd. 3. Gan fod disgwyl i hyn fod yn llawer o'r gwaith cyfieithu bydd y Cyngor yn cadw set benodol o ddogfennau i fonitro pob archeb gwaith a roddwyd. Golyga hyn y bydd cofnod addas ar gyfer rheoliadau ariannol ac unrhyw faterion yn ymwneud ag ansawdd y cyfieithu. Er mwyn hwylustod ac i leihau amser fe gyfathrebir â'r sawl sy'n cyfieithu drwy ebost. Caiff cofnod o'r sgwrs ei chadw drwy greu ffolder penodol ar gyfer y math yma o ohebiaeth. 4. Neilltuo arian yn y gyllideb ar gyfer cyfieithu. 5. Uwchlwytho'r dogfennau sydd wedi eu cyfieithu ar y wefan cyn gynted ag y bo modd. 6. Mae Clerc y Dref wedi datgan y bydd angen newid trefn gwaith y swyddfa ar gyfer materion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â pharatoi'r agendau/cofnodion o ganlyniad i hyn. Byddai hyn hefyd yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth, er na wyddys yn</p>

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
	amser penodol, efallai ar draul gwaith arall sydd angen ei wneud.	union eto i ba raddau. Bydd yn rhaid rhoi trefn ar waith ar gyfer monitro a chofnodi'r effeithiau eilradd ar wasanaethau cyffredinol sy'n deillio o weinyddu'r cynllun hwn.
3.3.3. Bydd y Cyngor yn ymateb i gwestiynau ynglŷn â'r cofnodion, neu rannau o'r cofnodion, yn newis iaith y sawl sy'n holi.	Mae'r Cyngor yn deall ac yn derbyn hyn gan ei fod yn debyg iawn i'r gofynion yng nghymalau 3.1.3 a 3.1.4	Gweler 3.1.3 a 3.1.4
<p>3.4. Cyfarfodydd cyhoeddus wedi eu trefnu gan, neu ar ran, y Cyngor (Nid Cyfarfodydd Rheolaidd Ffurfiol y Cyngor na'r pwyllgorau) <i>[sef cyfarfodydd y mae'r Cyngor yn eu trefnu gyda'r cyhoedd, er enghraifft dargyfeirio traffig neu wella cyfleusterau]</i></p> <p>3.4.1. Bydd unrhyw gyfarfod cyhoeddus ynglŷn â'r iaith Gymraeg, Addysg Cyfrwng Cymraeg, Treth Cyngor, neu unrhyw wybodaeth ar etholiadau/isetholiad lleol yn ddwyieithog.</p> <p>3.4.2 Bydd pob deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd yn ddwyieithog a gwneir trefniadau cyfieithu.</p> <p>3.4.3. Bydd y Cyngor yn darparu cyfleusterau cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus sydd wedi eu trefnu gan, neu ar ran y Cyngor.</p> <p>3.4.5. Bydd unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig fel taflenni neu asetadau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ynglŷn â'r iaith Gymraeg, Addysg Cyfrwng Cymraeg, Treth y Cyngor neu wybodaeth ar etholiad neu isetholiad lleol yn ddwyieithog</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae a wnelo'r cymalau hyn a chyfarfodydd cyhoeddus nid cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor. Ychydig iawn o gyfarfodydd cyhoeddus o'r fath sydd wedi bod yn y gorffennol. Mae'r Cyngor yn deall ac yn derbyn y goblygiadau ymarferol. 2. Clerc y Dref i newid y trefniadau yn unol â'r gofynion hyn. 3. Goblygiadau ariannol – cyfartaledd cost cyfieithu mewn cyfarfod yw £250 ond mae'n debyg na fydd galw. 4. Goblygiadau o ran adnoddau – amser y staff yn trefnu cyfleusterau'r cyfarfod a chyfieithu. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i wneud y trefniadau angenrheidiol pan fydd cyfarfod cyhoeddus. Cofnodi'r achlysuron a'r trefniadau.

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
3.5. Cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r Cyhoedd		
<p>3.5.1. Bydd y Cyngor yn hapus i drafod gyda'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg, gan sicrhau bod trefniadau addas i bobl drafod materion gyda swyddog dwyieithog. Os nad oes swyddog Cymraeg bydd y Clerc yn egluro'r sefyllfa'n gwrtais a chynnig eu bod yn trafod y mater yn Saesneg neu'n anfon llythyr yn Gymraeg.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae'r Cyngor yn derbyn ac yn deall y goblygiadau. Serch hynny, gan nad oes gweithwyr Cymraeg yn y swyddfa ar hyn o bryd bydd yn rhaid i siaradwyr Cymraeg ysgrifennu eu hymholiad os oes arnynt eisiau cyfathrebu'n Gymraeg. 2. Clerc y Dref i newid y trefniadau a rhoi gwybodaeth i'r staff ar sut i weithredu'r gofynion. 3. Yn ôl pob tebyg mae llythyrau Cymraeg at Gynghorwyr yn dod o dan y gofyn yma. 4. Goblygiadau ariannol – dim. 5. Goblygiadau o ran adnoddau – dim. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i roi gwybodaeth ysgrifenedig i'r staff. 2. Cofnodi ar sawl achlysur y mae'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg. 3. Clerc y dref i roi trefn weithredu i'r Aelodau yn dweud wrthynt am anfon unrhyw e-byst Cymraeg at y Cyngor er mwyn eu cyfieithu.
3.6. Cyfathrebu â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill		
<p>3.6.1 Pan fydd y Cyngor yn defnyddio technoleg gwybodaeth i gysylltu â'r cyhoedd (sef gyfrifiadur neu e-bost) bydd yr wybodaeth ar gael yn ddwyieithog. Yn ystod cyfnod y Cynllun bydd y Cyngor yn cyfieithu elfennau parhaol y wefan gyda'r bwriad o gael gwefan cwbl ddwyieithog yn y pen draw.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Yn gyntaf bydd angen i'r Cyngor fod â chyfeiriadau ebost dwyieithog. Mae modd gwneud hyn yn hawdd heb oblygiadau ariannol na goblygiadau eraill. 2. Yn ail bydd y Cyngor yn ymdrechu i greu gwefan ddwyieithog. Bydd goblygiadau cynllunio ac felly costau ynghlwm â hyn. Mae'n debyg bod modd gwneud hyn mewn gwefan "newydd". Mae gwefan bresennol y Cyngor yn sawl blwyddyn oed ac mae angen ei ddiweddarau. Ym mis Medi 2010 bu cyfarfod esboniadol gyda dylunydd gwe presennol y Cyngor. Bydd cyfarfodydd eraill gyda chyrrff cyhoeddus, cyrrff prosiect a chyrrff cymunedol fel, mae'n debyg, Ardal 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Trefnu bod cyfeiriadau e-bost dwyieithog ar gael. 2. Ymdrechu i greu gwefan ddwyieithog yn ystod cyfnod y Cynllun. Bydd hyn yn fater i'r Is-bwyllgor Iaith Gymraeg yn ystod 2011/13 a bydd yn rhaid iddynt ei gofnodi yn yr agendau a'r cofnodion. 3. Mae cost sylweddol ynghlwm â hyn. Mae cyllideb o £10,000 wedi ei neilltuo ar ei gyfer.

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
	<p>Adfywio Arfordir Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych, BRAND, Asiantaeth Cymuned, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Menter Iaith i ystyried materion pellach cyn y gellir dechrau cydweithio (mae'n debyg) ar brosiect.</p> <p>3. Clerc y Dref i drefnu i gynnwys manylion Cymraeg ar y patrymlun ebost.</p> <p>4. Clerc y Dref i adolygu gwefan y Cyngor. Bydd hyn yn cymryd sawl cyfarfod a sawl mis i'w gwblhau.</p> <p>5. Goblygiadau ariannol – bydd costau sylweddol i wneud yr holl waith dylunio a chyfieithu'r wefan. Mae'r Cyngor wedi clustnodi £10,000, mewn egwyddor yn unig, ar gyfer y prosiect sy'n amodol ar ystyriaeth bellach. Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn gwybod pa waith cynnal a diweddarau'r wefan fydd ei angen.</p> <p>6. Goblygiadau o ran adnoddau – diweddarau'r wefan yn gyson, trefnu cyfieithu yn y dyfodol ac ati.</p>	
4. GWEDD GYHOEDDUS Y CYNGOR		
4.1. Hunaniaeth Gorfforaethol	Fel isod	
4.1.1. Bydd hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn ddwyieithog	Gweler 5.5.1	Gweler 5.5.1
4.1.2. Bydd enw a chyfeiriad y Cyngor ar benawdau llythyrau, papurau ffacs, slipiau cyfarch ac unrhyw ddeunydd hyrwyddo arall yn ddwyieithog.	Gweler 5.5.1	Gweler 5.5.1

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
4.2. Arwyddion [Mae'r canllaw yma'n berthnasol i arwyddion swyddfa'r Cyngor, ac os oes swyddfa, unrhyw arwyddion cyhoeddus allanol.]	Mae'r Cyngor yn deall egwyddor yr angen hwn - Gweler 4.2.1	Gweler 4.2.1
4.2.1. Bydd pob arwydd gwybodaeth newydd ar eiddo'r Cyngor neu arwyddion newydd i gymryd lle hen rai yn ddwyieithog. Felly hefyd arwyddion y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Bydd y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr, gyda'r Gymraeg ar y chwith. Os nad yw hyn yn bosib bydd y Gymraeg yn ymddangos gyntaf. Bydd y testun o'r un maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd yn y ddwy iaith.	Gweithredoedd a chyfrifoldebau: nid oes angen newid yr arwyddion presennol ond pan fydd angen arwyddion newydd bydd yr is-bwyllgor yn edrych ar y mater mewn mwy o fanylder er mwyn sicrhau cysondeb ac ymdriniaeth addas. Goblygiadau trefnu – Clerc y Dref i drefnu y caiff adroddiadau eu cyflwyno yn y modd priodol. Goblygiadau ariannol – ychydig iawn. Goblygiadau o ran adnoddau – ychydig iawn.	1. Fe all yr arwyddion presennol aros fel y maent, ond pan fydd angen arwyddion newydd bydd yn rhaid i'r Is-bwyllgor drafod y mater mewn mwy o fanylder i sicrhau ymdriniaeth addas a chysondeb. 2. Clerc y Dref i drefnu y caiff adroddiadau eu cyflwyno yn y modd priodol a nodi unrhyw weithred.
4.3. Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau	Mae'r Cyngor yn deall egwyddor yr angen hwn – Gweler 2.2.1	Gweler 2.2.1
4.3.1. Bydd pob dogfen gyhoeddus fel deunyddiau eglurhaol ynglŷn â'r Gymraeg, Addysg Cyfrwng Cymraeg, Treth Cyngor, gwybodaeth am etholiadau/isetholiadau lleol a ffurflenni grant yn ddwyieithog ar un daflen. Bydd y Cyngor yn argraffu'r fersiynau ochr yn ochr fel ei bod yn haws croesgyfeirio rhwng y naill iaith a'r llall, yn haws eu dosbarthu ac yn fwy effeithiol o ran cynnig dewis iaith i bobl.	1. Y Cyngor i gynnwys paragraff "Cynllun Iaith Gymraeg" safonol ymhob adroddiad pwyllgor fel y gellir gweld sut fydd y Cynllun Iaith yn effeithio ar y mater dan sylw. 2. Clerc y Dref i sicrhau bod y digwyddiadau blynyddol yn cydymffurfio â'r Cynllun. 3. Goblygiadau ariannol – cost cyfieithu ac mae'n debyg y bydd costau dylunio a chyhoeddi ychwanegol yn dibynnu ar natur y ddogfen. 4. Goblygiadau o ran adnoddau – mwy o waith gweinyddu, trefnu cyfieithu, a sicrhau fod deunyddiau'n cydymffurfio â'r Cynllun.	1. Ni ddaeth unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio i'r amlwg wrth adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer digwyddiadau. Bydd paragraff safonol ymhob adroddiad pwyllgor fel y gellir gweld sut fydd y Cynllun Iaith yn effeithio ar drefnu unrhyw beth newydd . Cofnodi unrhyw weithred. 2. Ceisiadau grant a ffurflenni cyngor i fod yn ddwyieithog erbyn Tachwedd y 30 ^{ain} 2011 ar gyfer Cynllun Grant 2012

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
4.3.2 Os argreffir dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân bydd y Cyngor yn eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddent ar gael i bawb yn y ddwy iaith.	Mae'r Cyngor yn deall egwyddor yr angen hwn – Gweler 4.3.1	Gweler 4.3.1
4.3.3. Bydd datganiadau i'r wasg ynglŷn â'r iaith Gymraeg, Addysg Cyfrwng Cymraeg, Treth y Cyngor, etholiadau/isetholiadau lleol a ffurflenni grant yn ddwyieithog, gan dargedu papurau bro yn arbennig.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i sicrhau fod canllawiau ysgrifenedig a threfniadau ar gael i'r staff. 2. Ychwanegu'r Papurau Bro ar y rhestr derbynyddion 3. Goblygiadau ariannol – cost cyfieithu 4. Goblygiadau o ran adnoddau – mwy o waith gweinyddu 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i gyhoeddi canllawiau a dulliau gweithredu i'r staff er mwyn sicrhau fod pob datganiad i'r wasg a hysbysiad cyhoeddus yn ddwyieithog. Cofnodi pob gweithred. 2. Rhaid cynnwys y Papurau Bro ar y rhestr derbynyddion a chadw cofnod fel tystiolaeth.
<p>4.3.4 Bydd yr holl ddeunydd hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn ddwyieithog ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> - deunydd ar gyfer ardaloedd y tu allan i Gymru (e.e. deunyddiau marchnata a chyhoeddusrwydd). Yn dibynnu ar natur y digwyddiad, fe all deunydd o'r fath fod yn Saesneg yn unig. - Wrth hysbysebu mewn cyhoeddiadau uniaith Gymraeg (fel Papurau Bro) bydd yr hysbyseb yn Gymraeg yn unig. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i sicrhau bod canllawiau a threfniadau ysgrifenedig ar gael i'r staff. 2. Negeseuon cefnogaeth dwyieithog. 3. Hysbysiadau "cefnogaeth" ariannol i fod yn ddwyieithog. 4. Goblygiadau ariannol – mwy o gostau yn nhermau cyfieithu a chyhoeddi 5. Goblygiadau o ran adnoddau – mwy o waith gweinyddu 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i gyhoeddi canllawiau a dulliau gweithredu i'r staff er mwyn sicrhau fod pob deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn ddwyieithog. Cadw cofnod o bob gweithred. 2. Rhaid cynnwys y Papurau Bro ar y rhestr derbynyddion a chadw cofnod fel tystiolaeth.
4.3.5 Bydd hysbysiadau'r Cyngor ynglŷn â'r iaith Gymraeg, Addysg Cyfrwng Cymraeg, Treth Cyngor, gwybodaeth am etholiadau ac isetholiadau lleol yn ddwyieithog ar hysbysfyrddau, yn y papurau newydd ac unrhyw le arall.	Gweler 4.3.3	Gweler 4.3.3

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
4.3.6 Bydd hysbysiadau swydd yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau uniaith Saesneg, ac eithrio pan fydd sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol. Bydd hysbysiadau Cymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau uniaith Gymraeg.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i sicrhau bod canllawiau a threfniadau staff ar gael yn ysgrifenedig. 2. Bydd angen penderfyniad ffurfiol i weld a yw'r Gymraeg yn "ddymunol" neu'n "hanfodol" ar gyfer swyddi. 3. Goblygiadau ariannol – mwy o gostau yn nhermau cyfieithu a chyhoeddi. 4. Goblygiadau o ran adnoddau – mwy o waith gweinyddu. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i ddynodi anghenion Cymraeg unrhyw swydd fel yn 3.2.1. Cofnodi pob gweithred. 2. Clerc y Dref i osod hysbysiadau swydd fel yn 4.3.3 a chadw cofnod fel tystiolaeth.
4.4 Digwyddiadau Statudol a Hyrwyddo		
4.4.1 Wrth weinyddu ei gynllun cefnogaeth ariannol i sefydliadau lleol bydd y Cyngor yn gofyn i'r sefydliad sut y maent yn hyrwyddo'r Gymraeg yn eu gweithgareddau.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i sicrhau fod cwestiwn addas ar y ffurflen grant. Ni fydd y Cyngor yn defnyddio ateb y cwestiwn wrth ystyried y cais. 2. Goblygiadau trefnu - dim 3. Goblygiadau ariannol - dim 4. Goblygiadau o ran adnoddau – dim 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i sicrhau fod cwestiwn ar ffurflenni ymgeisio am grant yn gofyn sut mae'r sefydliad yn hyrwyddo'r Gymraeg yn eu gweithgareddau - erbyn Tachwedd y 30^{ain} 2011 ar gyfer Cynllun Grant 2012.
4.4.2. Pan fydd pobl yn ymgynghori â'r Cyngor ynglŷn â cheisiadau cynllunio, bydd y Cyngor yn annog gosod arwyddion dwyieithog mewn swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd drwy gyfeirio at natur ddwyieithog yr ardal.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i sicrhau fod paragraff safonol yn adroddiad y rhaglen ceisiadau cynllunio fel y gall y pwyllgor ddynodi materion o'r fath. 2. Goblygiadau ariannol - dim 3. Goblygiadau o ran adnoddau – dim 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i sicrhau fod paragraff safonol yn adroddiad y rhaglen ceisiadau cynllunio fel y gall y pwyllgor ddynodi materion o'r fath.
4.4.3. Pan fydd pobl yn ymgynghori â'r Cyngor ynglŷn ag enwau strydoedd, datblygiadau a stadau tai newydd, bydd y Cyngor yn eu hannog i ddefnyddio enwau gwreiddiol Cymraeg lle b'n berthnasol. Bydd y Cyngor yn holi barn Panel Safoni Enwau Lleoedd Cymru os oes ansicrwydd.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i sicrhau fod paragraff safonol yn adroddiad y rhaglen ceisiadau cynllunio fel y gall y pwyllgor ddynodi materion o'r fath. 2. Goblygiadau ariannol - dim 3. Goblygiadau o ran adnoddau – dim 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i sicrhau fod paragraff safonol yn adroddiad y rhaglen ceisiadau cynllunio fel y gall y pwyllgor ddynodi materion o'r fath.

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
<p>4.5. Gwasanaethau partïon eraill</p> <p>4.5.1. Bydd unrhyw drefniadau i ddefnyddio trydydd parti i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd ar ran y Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion penodol y Cynllun Iaith fel sydd wedi ei amlinellu gan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn amlinellu'r mesurau perthnasol yn y Cynllun y bydd yn rhaid i'r trydydd parti gydymffurfio â nhw yn y manylebau cytundeb a thendro.</p>	<p>1. Clerc y Dref i sicrhau y gweithredir ar unrhyw benderfyniad yn unol â'r canllawiau a'r trefniadau staff perthnasol.</p> <p>2. Goblygiadau ariannol – rydym wedi ymdrin â'r prif faterion o ran arwyddion a chyfieithu mewn cymalau eraill.</p> <p>3. Nid yw materion rheoli Canolfan Gymunedol Tynewydd wedi eu penderfynu eto.</p>	<p>1. Ni ddaeth unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio i'r amlwg wrth adolygu'r trefniadau presennol. Nodi unrhyw newidiadau a all effeithio ar yr Iaith Gymraeg.</p> <p>2. Nodwyd bod trefniadau rheoli Canolfan Gymunedol Tynewydd wedi eu seilio ar gytundeb fydd yn cael ei hadolygu yn ystod 2010/1. Dylid ymgorffori'r goblygiadau Iaith Gymraeg pan wneir hynny. Monitro'r datblygiad o ran adolygu'r cytundeb yma. Yr Is-bwyllgor Iaith Gymraeg fydd yn gyfrifol am wneud hyn yn ystod 2011/13 gan roi tystiolaeth o'u gwaith monitro yn yr agendau a'r cofnodion.</p>
<p>4.5.2. Bydd yn rhaid i'r trydydd parti gadarnhau ei fod yn cydymffurfio i agweddau perthnasol y Cynllun mewn llythyr.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn deall egwyddor yr angen hwn- Gweler - 4.5.1</p>	<p>Gweler 4.5.1</p>
<p>5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN</p>		
<p>5.1. Staffio</p> <p>5.1.1 Wrth benodi staff a swyddogion bydd y Cyngor yn penderfynu a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol yn dibynnu ar ofynion y swydd; os yw'n ddymunol/ hanfodol caiff hynny ei nodi yn y Swydd Ddisgrifiad.</p> <p>5.2. Trefniadau Gweinyddu.</p> <p>5.2.1 Mae'r Cynllun yma wedi derbyn cefnogaeth y Cyngor.</p> <p>5.2.2. Bydd y Clerc yn gyfrifol am weithredu'r cynllun yn ddyddiol yn y Cyngor.</p>	<p>1. Pan fydd swydd wag, bydd Clerc y Dref, yn penderfynu ar ofynion Cymraeg y swydd a'u cynnwys yn y swydd ddisgrifiad.</p> <p>2. Goblygiadau ariannol – dim</p> <p>3. Goblygiadau o ran adnoddau - dim</p>	<p>1. Clerc y Dref i adnabod anghenion Cymraeg unrhyw swydd newydd fel yn 3.2.1. Cadw cofnod o unrhyw weithred yn ôl y gofyn.</p>
<p>5.3. Gwasanaeth Cyfieithu</p>		
<p>5.3.1. Bydd y Clerc yn gyfrifol am waith cyfieithu'r Cyngor ac am safon y cyfieithu.</p>	<p>1. Mae'r Is-bwyllgor wedi cymeradwyo defnyddio rhestr o gyfieithwyr achrededig</p>	<p>1. Rheoli a monitro canllawiau gwaith fel yn 3.1.2; 3.1.3; a 3.3.1</p>

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
	<p>yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor.</p> <p>2. Clerc y Dref i lunio cyfarwyddiadau gweithredu i'r staff</p> <p>3. Goblygiadau ariannol – tua £6,000 pob blwyddyn</p> <p>4. Goblygiadau o ran adnoddau – efallai y bydd trefniadau ychwanegol yn effeithio ar amserlen prosiectau a gweithdroad.</p>	
5.3.2. Os nad yw'n bosib i'r Clerc gwblhau'r gwaith mewn pryd, bydd y Cyngor yn cyflogi cyfieithwyr allanol.	Nid oes modd i'r Cyngor gyfieithu yn fewnol felly bydd angen cyfieithwyr allanol ymhob achos - Gweler 5.3.1	Gweler 5.3.1
5.3.3. Bydd y Clerc yn gyfrifol am drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y Cyngor.	Gweler 3.4.3	Gweler 3.4.3
5.3.4. Pan fydd gofyn amdano, bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus, neu unrhyw gyfarfod arall y mae'r Cyngor, neu rywun ar ran y Cyngor, yn trefnu, os mai dyna yw dymuniad y Cyngor.	Gweler 3.4.3	Gweler 3.4.3
5.4. Monitro		
5.4.1. Clerc y Cyngor sy'n gyfrifol am fonitro'r Cynllun.	<p>1. Clerc y Dref i ysgrifennu'r hyn sy'n ofynnol o bob Swyddog, Aelod, Pwyllgor ac ati pan fônt yn gwneud penderfyniadau.</p> <p>2. Goblygiadau ariannol, adnoddau– yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol.</p> <p>3. Rhaid cofnodi pob adnodd a gwariant ychwanegol at ddibenion monitro.</p> <p>4. Er mwyn hwyluso gwaith monitro bydd yn rhaid i Glerc y Dref gadw cofnodion a dogfennau perthnasol ar gyfer pob cymal</p>	<p>1. Clerc y Dref i wneud yr holl drefniadau ymarferol i fonitro, fesul cymal, y modd y rhoddwyd y Cynllun ar waith. Bydd y cynnydd o ran pob cymal yn y Cynllun yn dystiolaeth o hyn.</p>

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
	o'r Cynllun.	
5.4.2. Bydd y Cyngor yn derbyn adr adroddiad blynyddol cryno ar weithredu'r Cynllun. Bydd yr adroddiad i'w weld ar hysbysfyrddau, mewn papurau newydd lleol, papurau bro ac ati.) Bydd y Cyngor yn anfon copïau at Fwrdd yr Iaith hefyd. At hyn, bydd Cyngor yn gofyn am farn pobl leol ar y gwasanaethau a sut mae modd eu gwella. Bydd y Cyngor yn gwneud hyn drwy roi copi o'r adroddiad mewn manau cyhoeddus.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i baratoi adroddiad blynyddol i'r Cyngor, ei hysbysebu a'i gyhoeddi fel sy'n ofynnol. Caiff adroddiad sampl ei gyflwyno i'r cyfarfod ar y 4^{ydd} o Dachwedd D.S. – y posibilrwydd o ddefnyddio "Llais y Sir" ar gyfer hysbysebu'r Cynllun – a rhoi ffurflen adborth yno. 2. Goblygiadau ariannol – cost hysbysebu, cyfieithu a chyhoeddi copïau caled. 3. Goblygiadau o ran adnoddau – amser y staff a'r pwyllgor i gasglu'r ymatebion ac ystyried yr adroddiad. 4. Yr is-bwyllgor i adolygu'r wybodaeth fonitro cyn ac ar ôl cyhoeddi. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol y Cynllun erbyn diwedd blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynllun. 2. Cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor 3. Ei gyhoeddi yn unol â'r trefniadau 4. Ystyried unrhyw adborth – gweler 5.4.3
5.4.3. Bydd a wnelo'r adroddiad â phob agwedd o'r Cynllun.	Gweler 5.4.2 Yn y cyfarfod ar 02.09.10 (Cofnod rhif 23) dywedodd Mrs. Stephen (Menter Iaith) nad oes angen <u>"gwerthuso effaith y Cynllun ar dref Y Rhyl wrth fonitro'r Cynllun"</u>	Felly, fe ddylai'r anghenion monitro fod wedi eu cyfyngu i gofnodi'r modd y cydymffurfiwyd â'r Cynllun yn unig.
5.4.4. Bydd y Cyngor yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd (galwad ffôn neu lythyr) yn ymwneud â gwella unrhyw agwedd o'r Cynllun.	Gweler 5.4.2	Gweler 5.4.2
5.5. Cyhoeddusrwydd		
5.5.1. Bydd y Cyngor yn "hysbysebu'r" Cynllun trwy ddatganiad o fwriad mewn gohebiaeth ac ar y wefan - "mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg". Os gall y Cyngor gynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhyw fodd arbennig bydd yn hysbysebu hynny yn y modd priodol.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Clerc y Dref i newid penawdau llythyrau, slipiau cyfarch a'r wefan. 2. Goblygiadau ariannol – ychydig fydd y costau cyfieithu, mae'r newidiadau i'r wefan yn rhan o waith diweddarau'r wefan sydd wedi ei amlinellu yng nghymal 3.6.1 3. Goblygiadau o ran adnoddau – dim. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae slipiau cyfarch, e-byst, penawdau llythyrau a llythyrau gwysio newydd wedi eu dylunio ond heb eu cwblhau eto. 2. Newidiadau i'r wefan – gweler 3.6.1

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
5.6. Cysylltu â'r Cyngor		
5.6.1. Fe ddylid anfon unrhyw sylwadau, cwynion neu awgrymiadau at Glerc y Cyngor.	<p>1. Clerc y Dref i roi gwybodaeth ynglŷn â'r penderfyniad - <i>"fe ddylai'r Cyngor sefydlu trefn "gwyno" i ymdrin ag ymholiadau, cwestiynau a gohebiaeth pa un ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg".</i> <i>Hefyd, gweler dogfen ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n bosib y gellid defnyddio hon fel enghraifft o drefn gwyno.</i></p> <p>2. Goblygiadau ariannol – ychydig iawn.</p> <p>3. Goblygiadau o ran adnoddau – ychydig iawn.</p>	<p>1. Fe ddylai'r Cyngor sefydlu trefn "gwyno" ar gyfer ymdrin ag ymholiadau, cwestiynau a gohebiaeth pa un ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg.</p> <p>D.S.: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar y mater. Mae'n bosib y gellid defnyddio hon fel enghraifft o drefn gwyno. Ni fydd gweithredu pellach ar y mater nes bo gwybodaeth am y canlyniadau.</p>
6. AMSERLEN Bydd y Cyngor yn datblygu Cynllun Gweithredu fydd yn rhoi amserlen ar gyfer cyflwyno elfennau o'r Cynllun nad oes modd eu cyflwyno yn syth wedi iddo gael ei gymeradwyo. Caiff y Cynllun Gweithredu/Amserlen ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith a bydd yn rhan anhepgor o'r Cynllun.		
Ymgynghori	<p>1. Clerc y Dref i baratoi'r cynllun terfynol a'r cynllun gweithredu fel dogfen ymgynghorol ac ysgrifennu at Fwrdd yr Iaith.</p> <p>2. Yn dilyn cymeradwyaeth, Clerc y Dref i wneud ymarfer ymgynghori.</p> <p>3. Goblygiadau ariannol - cost cyfieithu - tua £300 (6,000 gair ar gyfradd o £50 y fil), cost hysbysebu - tua £300, dim gwybodaeth am gost cyhoeddi ac argraffu copïau caled o'r Cynllun, a phrin fydd cost darparu copïau electronig.</p>	<p>1. Clerc y Cyngor i gyflwyno'r Cynllun Cymeradwy ar gyfer ymgynghori. Ar ôl i Fwrdd yr Iaith gymeradwyo'r Cynllun bydd cyfnod ymgynghori o 13 wythnos.</p> <p>2. Wedi'r ymgynghori bydd adroddiad dilynol i ystyried pa gynrychiolaeth sydd ei angen.</p> <p>3. Byddwn yn ymgynghori gyda'r bobl a'r sefydliadau canlynol - Bwrdd yr Iaith, pob Ysgol Gynradd ac Uwchradd yn Y Rhyl, Ysgol Glan Clwyd, Cyngor Sir Ddinbych, Menter Iaith Dinbych, Yr Asiantaeth Gymuned, Cyngor</p>

Cynllun Iaith Gymraeg – Cynllun Gweithredu a Gofynion Monitro

Cymal	Gweithredu	Dull / Monitro
	<p>4. Goblygiadau o ran adnoddau. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd cyfrifoldebau a gwaith ychwanegol i bob aelod o staff o ganlyniad i'r Cynllun. Bydd angen cofnodi'r trefniadau newydd hyn. Bydd ambell aelod o staff yn gyfrifol am oruchwylion penodol. Serch hynny, gan fod y gweithlu yn un bach bydd yn rhaid i'r holl staff ddeall sut i roi'r holl drefniadau newydd ar waith. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen dilyn amserlenni a threfniadau penodol fydd, o dro i dro, yn effeithio ar waith arall ac angen mwy o amser i'w cwblhau.</p>	<p>Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Grŵp Busnes Y Rhyl, Sefydliadau Lleol sydd ar restr dosbarthu agenda a chofnodion y Cyngor, yr AS lleol, yr AC lleol, y cyhoedd</p> <p><i>Dull a llefydd ar gyfer ymgynghori-</i> Hysbyseb yn y Rhyl Journal a'r Papurau Bro, Llyfrgell Y Rhyl, pob hysbysfwrdd y Cyngor Tref, Gwefan y Cyngor Tref.</p>